

# Crynodeb

## CYFATHREBIADAU TRAMGWYDDUS A DIFRIOL AR-LEIN

### Crynodeb o'r Adroddiad Cwmpasu

#### CYFLWYNIAD

- 1.1 Mae datblygiad y rhyngwrwyd a'r cyfryngau cymdeithasol dros y degawdau diwethaf wedi ail siapio'n gyfan gwbl y ffordd yr ydym yn ymwneud â'n gilydd fel pobl ac fel cymdeithas. Mae'r newid radicalaidd yma wedi dod â llawer o fanteision, ond mae hefyd wedi dod â niwed a risgiau cysylltiedig, ac mae wedi bod yn sialens fawr i'r gyfraith newid yn ddigon chwim i ymdopi â'r amgylchedd hwn yn sy'n newid mor gyflym.
- 1.2 Ym mis Chwefror 2018, cyhoeddodd y Prif Weinidog bod Comisiwn y Gyfraith yn mynd i wneud dadansoddiad o gyfraith trosedd mewn perthynas â chyfathrebu tramgwyddus a difriol ar-lein. Roedd hyn yn dilyn ein ymgynghoriadau ni'n hunain yn 2016 a 2017, lle gwelwyd bod cefnogaeth eang i gynigion o'r fath.
- 1.3 Cytunwyd ar ein Cylch Gwaith ac mae hwn yn gofyn i ni ystyried y gyfraith trosedd berthnasol, a phennu unrhyw ddiffygion. Mae ein ffocws penodol ar benderfynu a yw cyfraith trosedd yn darparu diogelwch cyfartal ar-lein ac all-lein. Rydym hefyd yn ystyried a yw grwpiau penodol mewn cymdeithas yn fwy agored i gamdriniaeth nag eraill.
- 1.4 Wrth wneud yr arolwg yma, rydym yn cydnabod mai dim ond un ffordd o ymdrin â cham-drin ar-lein yw cyfraith trosedd. Mae'r Llywodraeth wrthi ar hyn o bryd yn ystyried cyd-destun ehangach niwed ar-lein drwy ei Strategaeth Diogelwch ar y Rhyngwrwyd.
- 1.5 Fodd bynnag, rydym yn barnu bod gan gyfraith trosedd rôl bwysig i'w chwarae mewn gosod safonau a rhwystro a chosbi ymddygiad annerbyniol ar-lein. Fel y dywedodd un rhanddeiliad:

Mae cam-drin ar-lein yn debyg i'r sefyllfa gyda cham-drin domestig yn yr 1980au. Roedd pobl yn arfer dweud bod cam-drin domestig yn rhywbeth sy'n digwydd a dyna ni. Nid oedd yr heddlu'n ymyrryd mewn dadleuon rhwng gŵr a gwraig. Ond newidiodd pob rhan o gymdeithas pan ddechreuwyd dod ag erlyniadau.
- 1.6 Y troseddau allweddol yr ydym yn eu hystyried drwy gydol yr Adroddiad Cwmpasu yw'r "troseddau cyfathrebu" o dan Ddeddf Cyfathrebiadau Maleisus 1988 ("MCA 1988") a Deddf Cyfathrebiadau 2003 ("CA 2003"). Rydym yn dadansoddi agweddau technegol y troseddau, ac hefyd y termau y maent yn dibynnu arnynt, gan gynnwys "tramgwydd difrifol", "anlladrwydd" ac "anwedduster".
- 1.7 Rydym hefyd yn edrych ar droseddau eraill sy'n troseddoli amrywiol fathau o ymddygiad bygythiol a thrallodus, hynny yw yn eu gwneud nhw'n droseddau, gan gynnwys y rheiny a geir yn Neddf Trefn Gyhoeddus 1986 a Deddf Diogelwch rhag Aflonyddu 1997.
- 1.8 Mae'r troseddau nesaf wedi eu heithrio o gwmpas yr adolygiad yma: troseddau terfysgaeth, cam-drin plant yn rhywiol a throseddau camfanteisio, twyll ar-lein a dirmyg llys. Mae'r materion hyn yn derbyn ystyriaeth gan y Llywodraeth mewn cyd-destunau eraill. Nid yw ein

Cylch Gwaith chwaith yn cynnwys ystyried atebolrwydd platfformau rhyngwyd sy'n cario neu'n storio cyfathrebiadau tramgwyddus neu ddifriol. Does dim amheuaeth bod gan blatfformau'r rhyngwyd rôl hanfodol i'w chwarae mewn sicrhau diogelwch defnyddwyr ar-lein, ond mae ffocws yr adolygiad hwn yn gyfan gwbl ar gyflawnwyr y cyfathrebu tramgwyddus a difriol ar-lein.

1.9 Drwy'r adolygiad cyfan yma rydym wedi ymgysylltu â llawer o unigolion a sefydliadau sy'n cael eu heffeithio gan y cyfreithiau hyn neu sydd â gwybodaeth fanwl am y materion perthnasol. Mae hyn wedi cynnwys dioddefwyr camdriniaeth ar-lein a'r elusennau sy'n eu cefnogi, erlynwyr, cyfreithwyr ac academyddion, grwpiau hawliau sifil, cwmnïau technoleg, ac amrywiol rannau o'r Llywodraeth.

1.10 Dyma strwythur yr Adroddiad Cwmpasu:

- Mae Pennod 2 yn amlinellu sut mae cyfathrebu ar-lein yn gweithio, a'r sialensiau y mae'r amgylchedd ar-lein yn eu cyflwyno i'r system cyfiawnder troseddol.
- Mae Pennod 3 yn nodi'r mathau penodol o niwed y mae dioddefwyr camdriniaeth ar-lein yn eu dioddef. Mae hyn yn ein helpu wrth i ni ystyried deddf trosedd drwy'r Adroddiad Cwmpasu cyfan.
- Mae penodau 4 i 12 yn disgrifio'r gyfraith trosedd gadarnhaol berthnasol yn fanylach.
- Mae Pennod 13 yn crynhoi'r casgliadau allweddol yr ydym wedi dod iddynt, ac yn amlinellu ein hargymhellion ar gyfer ffocws diwygiadau'r dyfodol.

1.11 Mae pob un o'r Penodau hyn wedi'u crynhoi ymhellach isod.

## **YR AMGYLCHEDD AR-LEIN**

1.12 Ym Mhennod 2 rydym yn rhoi rhywfiant o gefndir technolegol i chi am ddatblygiad y rhyngwyd a'r mathau o gyfathrebiadau y mae'n eu hwyluso, gan gynnwys pori'r wefan, e-bost a'r cyfryngau cymdeithasol. Rydym yn trafod y gwasanaethau rhwydweithio cymdeithasol, ac yn amlinellu rôl platfformau mawr megis "Facebook", "Twitter", "Snapchat" a gwasanaethau negeseua gwib yn yr amgylchedd ar-lein.

1.13 Mewn trafodaethau academiaidd, mae seiberdroseddu'n derm sy'n cael ei ddefnyddio'n aml ond y mae llawer o ddadlau amdano. I'n pwrpasau ni, rydym yn gwahaniaethu rhwng seiberdroseddu a throsedd gyfrifiadurol yn fwy cyffredinol. Rydym yn trafod amrywiol categorïau o wahanol fathau o seiberdroseddu, a'r ffaith mai un math o'r troseddu yma yw cyfathrebu difriol ac ar-lein. Yn yr Adroddiad Cwmpasu hwn, rydym yn mabwysiadu cynllun categoreiddio sy'n cael ei yrru gan categorïau o droseddau ac ymddygiadau "all-lein" y gofynnwyd i ni eu hadolygu: troseddau llefaru a chyfathrebu sy'n dramgwyddus a/neu'n ddifriol.

1.14 Rydym hefyd yn ystyried y sialensiau endemig mewn plismona seiberdroseddu ar gyfer gorfodi cyfraith ddomestig. Mae'r rhain yn cynnwys problemau sy'n codi o fewn cyfraith trosedd gadarnhaol, ochr yn ochr â heriau ymchwiliol, cymdeithasol a rheoleiddiol. Rydym yn edrych ar heriau sy'n cynnwys:

- Sicrhau cydbwysedd rhwng gweithredu cyfraith trosedd a'r hawl cymwysedig i ryddid mynegiant.

- Canfod lle mae'r drosedd wedi'i gweithredu o safbwynt awdurdodaethol.
- Ymdrin ag amhendrantrwydd yr elfennau yn y troseddau.
- Ymdrin â'r heriau ymchwiliol sy'n codi am fod y cyfathrebu'n digwydd ar-lein, gan gynnwys:
  - Cael gafael ar dystiolaeth:
    - pan fydd wedi'i lleoli tu allan i Gymru neu Loegr; neu
    - pan fydd gan y troseddwr lawer o allu technolegol.
  - Galluoedd ac adnoddau technegol yr heddlu.
  - Rôl darparwyr y gwasanaeth rhyngwryd.
  - Graddfa'r ymddygiad troseddol.
- Nodweddion y cyfathrebu ar-lein sy'n gwneud cyfathrebu tramgwyddus a difriol yn beth mor gyffredin.

## YR EFFAITH AR DDIODDEFWYR

- 1.15 Yn sail i'r angen am yr adolygiad hwn mae'r niwed amlwg y mae cyfathrebu tramgwyddus a difriol ar-lein yn ei achosi i ddiodefwr.Ym Mhennod 3 rydym yn ystyried a yw effaith cyfathrebu tramgwyddus a difriol ar-lein yn ansoddol wahanol i hwnnw sy'n cael ei weithredu oddi ar lein.
- 1.16 Trwy adolygiad p ddeunydd gwybodaeth ac hefyd ein trafodaethau gyda rhanddeiliaid, gwelwn fod effaith ansoddol y cyfathrebu tramgwyddus a difriol ar-lein yn cynnwys:
- effeithiau seicolegol, megis iselder a phryder;
  - niwed emosiynol, megis teimladau o gywilydd, unigrwydd a thrallod;
  - niwed seicolegol, yn cynnwys hunan-niweidio yn yr achosion mwyaf eithriaol;
  - eithrio o le cyhoeddus ar-lein a theimladau cyfatebol o unigedd;
  - niwed economaidd, drwy dynnu pobl allan o fannau ar-lein, sy'n gallu effeithio merched yn fwy na dynion; a
  - newid cymdeithasol ehangach, megis yr effaith y mae'n ei gael ar bobl sy'n gweld yr ymddygiad troseddol: Er enghraifft, pan fydd rhywun yn gweld llefaru casineb ar-lein.
- 1.17 Rydym yn cydnabod bod gan bobl farn wahanol ynglŷn â'r cwestiwn a yw niwed sy'n codi o gamdriniaeth ar-lein yn wahanol iawn i'r niwed y mae diodefwr camdriniaeth oddi ar lein yn ei brofi. Mae nifer o ddiodefwr wedi ein cyngori bod yr effaith ar eu bywydau'n wahanol, o ganlyniad i nodweddion penodol y cyfathrebu ar y rhyngwryd, gan gynnwys maint y cyfathrebu, cyrhaeddiad a pha mor barhaol yw negeseuon ar-lein, a'r ffaith fod y troseddwr yn ymddangos yn ddi-enw.
- 1.18 Rydym yn gwrthod yr awgrym y dylid trin niwed o gamdriniaeth ar-lein fel niwed llai difrifol am fod modd ei "osgoi", am fod diodefwr yn eu rhoi eu hunain yn llwybr y niwed drwy aros ar-lein. Byddai hynny'n gosod baich afresymol ac annheg ar ddiodefwr camdriniaeth o'r

fath. Hefyd, nid yw dadleuon o'r fath yn gwerthfawrogi'r ffaith fod yr amgylchedd ar-lein yn ganolog i fywyd personol a phroffesiynol cyfoes. Fel y dywedodd un Aelod Seneddol blaenllaw wrthym:

pan fydd merched yn cael eu cam-drin ar-lein, mae'r heddlu yn eu cynghori weithiau i "beidio mynd ar-lein" Mae hynny'n gyfatebol â dweud wrth ferched am beidio mynd allan.

- 1.19 Yn y bennod hon rydym yn edrych hefyd ar nodweddion o gyfathrebu tramgwyddus ar-lein sy'n gallu gwaethygu'r niwed a ddiodeffir gan y diodeffwyr. Rydym yn tynnu sylw arbennig at yr effaith sy'n gallu bod yn ddiinstriol iawn weithiau pan fydd nifer o bobl yn cam-drin unigolyn ar y cyd.

## TROSEDDAU CYFATHREBU

- 1.20 Ym Mhennod 4 rydym yn dadansoddi adran 1 Deddf Cyfathrebiadau Maleisus 1988, ac Adran 127(1) Deddf Cyfathrebiadau 2003, yr ydym yn cyfeirio atynt ar y cyd fel y "troseddau cyfathrebu". Dyma'r troseddau y dibynnir arnynt amlaf yng nghyd-destun cyfathrebu ar-lein tramgwyddus a difriol.
- 1.21 Mae Adran 1 Deddf Cyfathrebiadau Maleisus 1988 yn troseddoli'r weithred o anfon mathau arbennig o gyfathrebiad at berson arall, lle mae'r anfonwr yn bwriadu achosi "pryder neu drallod" i'r derbyniwr neu i berson arall. Y mathau perthnasol o gyfathrebu yw'r rheiny sy'n cyfleu neges sy'n anwedus neu'n eithriadol dramgwyddus, yn fygythiad neu'n wybodaeth ffug.
- 1.22 Mae Adran 127(1) Deddf Cyfathrebiadau 2003 yn troseddoli'r weithred o anfon neges sy'n "eithriadol dramgwyddus neu sydd o gymeriad anwedus, anllad neu beryglus". Mae Adran 127(2) Deddf Cyfathrebiadau 2003 yn troseddoli'r weithred o anfon neges y mae'n hysbys ei bod yn ffug er mwyn achosi "dicter, anghyfleustra neu bryder diangen" i rywun arall.
- 1.23 Mae'r crynodeb uchod yn gor-symleiddio i raddau, ac rydym yn dadansoddi elfennau'r troseddau hyn yn llawer manylach ym Mhennod 4.
- 1.24 Rydym wedi canfod bod rhai agweddau positif i'r troseddau. Er enghraifft, am nad yw'r troseddau'n gofyn am dystiolaeth o'r niwed gwirioneddol sy'n cael ei achosi i ddiodeffwyr, gallent gael eu herlyn yn haws na "throseddau canlyniad", a fyddai'n gofyn am dystiolaeth o'r fath. Mae'r termau eang a ddefnyddir yn y troseddau hefyd yn golygu eu bod yn ddigon hyblyg fel arfer i ymdrin â'r amrywiaeth enfawr o gyfathrebiadau tramgwyddus a difriol ar-lein, ac yn golygu bod lle i addasu ar gyfer datblygiadau yn y dyfodol.
- 1.25 Fodd bynnag, rydym hefyd yn gwneud nifer o feirnaethau. Mewn perthynas â throseddau Deddf Cyfathrebiadau Maleisus 1988, nodwn ei bod hi'n weddol aneglur a ellir gweithredu'r drosedd drwy bostio ar fforwm cyhoeddus, am fod cyfraith achosion ddiweddar yn awgrymu fod ei gwmpas wedi'i gyfyngu efallai i gyfathrebiad sydd wedi'i gyfeirio'n benodol "at rywun arall".
- 1.26 Mewn perthynas â throseddau Deddf Cyfathrebiadau 2003, nodwn nad ydynt yn cynnwys cyfathrebiadau a anfonir dros rwydwaith "preifat", megis cyfathrebu Bluetooth, gan awgrymu eu bod wedi methu addasu i'r math yma o gyfathrebu.

- 1.27 Yn fwy sylfaenol, nodwn fod y troseddau cyfathrebu'n gorgyffwrdd i raddau mawr, ac y byddai'n fanteisiol eu cydgrynhoi a'u rhesymoli er mwyn lleihau'r dryswch, ac i sicrhau eu bod yn newid i gyd-fynd â thechnoleg newydd.
- 1.28 Yn olaf, wrth i ni chwilio drwy'r Adroddiad Cwmpasu cyfan, mae rhai o'r termau am droseddau - megis "tramgwydd difrifol" - yn aneglur, gan adael llawer o ddisgresiwn i'r llysoedd a'r erlynwyr. Gall hyn arwain at ansicrwydd ac anghysondeb, ac mae'n ei gwneud hi'n anodd i'r cyhoedd ddeall lle mae'r llinell rhwng y cyfathrebu sy'n drosedd a'r cyfathrebu nad yw'n drosedd.

### **Argymhelliad1.**

- 1.29 Dylid diwygio'r troseddau cyfathrebu yn adran 1 Deddf Cyfathrebiadau Maleisus 1988 ac Adran 127 Deddf Cyfathrebiadau 2003 er mwyn sicrhau eu bod yn glir ac yn ddealladwy ac yn rhoi sicrwydd i ddefnyddwyr ar-lein ac asiantaethau gorfodi'r gyfraith.

### **"TRAMGWYDD DIFRIFOL"**

- 1.30 Mae "tramgwydd difrifol" yn gysyniad y dibynnir arno yn adran 1 Deddf Cyfathrebiadau Maleisus 1988 ac adran 127(1) Deddf Cyfathrebiadau 2003, ac mae'n debyg mai dyma agwedd fwyaf amwys a chynhennus y troseddau yma.
- 1.31 Er bod y term wedi cael ei ddefnyddio mewn statud am fwy na chant o flynyddoedd, dim ond cynnydd minimol a welwyd gan y llysoedd o ran diffinio ac egluro ei ystyr.
- 1.32 Mae dadansoddiad o achosion diweddar yn awgrymu bod erlyniadau ar sail cyfathrebu "tramgwydd difrifol" yn ymwneud yn aml iawn â llefaru casineb a chamdriniaeth sydd wedi'i gyfeirio at bobl o broffil uchel.
- 1.33 Fel yr ydym yn ei amlinellu ym Mhennod 5, mae'r syniad o "dramgwydd" yn codi sialensiau arbennig wrth ystyried rhyddid mynegiant. Er enghraifft, dydy hi ddim yn glir bob amser a ddylai mynegi barn amhoblogaidd, neu jôc y mae llawer o bobl yn ei ystyried yn un ddi-chwaeth, groesi'r trothwy i fod yn ymddygiad troseddol.
- 1.34 Er bod canllawiau erlyn clir wedi cael eu cyflwyno, mae diffyg egludrer a sicrwydd yn parhau yn y maes yma, ac rydym o'r farn y dylid ailystyried y term yma yn rhan o adolygiad ehangach o droseddau cyfathrebu.

### **ANLLADRWYDD AC ANWEDDUSTER**

- 1.35 Gallai cyfathrebiadau "anllad" ac "anweddus" fod yn drosedd hefyd o dan un o'r troseddau cyfathrebu.
- 1.36 Mae nifer o droseddau perthnasol eraill hefyd sy'n ymwneud ag anlladrwydd ac anwedduster:
- cyhoeddi erthygl anllad sy'n mynd yn groes i adran 2 Deddf Cyhoeddiadau Anllad 1959;
  - dangos mater anllad sy'n mynd yn groes i adran 1 Deddf Dangosiadau Anllad (Rheolaeth) 1981;

- y troseddau cyfraith gyffredin "sarhad ar wedduster cyhoeddus" a "chynllwynio i lygru moesau cyhoeddus";
  - y drosedd o ddangosiad amhriodol o dan adran 66 Deddf Troseddau Rhywiol 2003; a
  - meddiant ar "bornograffi eithriadol" o dan adran 63 Deddf Cyfiawnder Troseddol a Mewnfudo 2008.
- 1.37 Rydym yn ystyried pob un o'r troseddau hyn a sut maen nhw'n weithredol yn yr amgylchedd ar-lein ym Mhennod 6.
- 1.38 Yn debyg i'r materion a godwyd gennym mewn perthynas â "thramgwydd difrifol", rydym yn nodi'r diffyg pendantrwydd ynghylch y syniadau o "anlladrwydd" ac "anwedduster" sy'n tanseilio'r troseddau hyn.
- 1.39 Rydym hefyd yn amlinellu pryderon arbennig mewn perthynas â'r troseddau hyn sy'n codi yn y cyd-destun ar-lein, yn bennaf:
- y posibilrwydd y gallai sgysiau ar-lein preifat gael eu troseddoli gan adran 2 Deddf Cyhoeddiadau Anllad 1959, ac a yw hyn yn fanteisiol;
  - nid yw'n eglur a ddylid ystyried seiberofod yn "fan cyhoeddus" i bwrpasau "sarhad ar wedduster cyhoeddus" ac o ran dangos materion anweddus yn groes i adran 1 Deddf Dangosiadau Anllad (Rheolaeth) 1981; ac
  - ystyr "meddiant" ar bornograffi eithriadol i bwrpasau adran 63 Deddf Cyfiawnder Troseddol a Mewnfudiad 2008.

## Argymhelliad2.

- 1.40 Yn rhan o'r diwygiad i droseddau cyfathrebu, dylid adolygu ystyr "anllad" ac "anweddus", a dylid rhoi rhagor o ystyriaeth i ystyr y termau "cyhoeddi", "dangos", "meddiant" a "man cyhoeddus" o dan y troseddau perthnasol.

## CYFATHREBIADAU BYGYTHIOL

- 1.41 Mae nifer fawr o droseddau penodol sy'n delio gyda bygythiadau mewn cyd-destunau penodol yng nghyfraith trosedd Cymru a Lloegr, ond nid oes fframwaith trosfwaol sy'n delio gyda datganiadau neu gyfathrebiadau bygythiol.
- 1.42 Ym Mhennod 7 rydym yn ystyried y darpariaethau allweddol y gellid eu defnyddio i droseddoli cyfathrebiadau bygythiol, yn benodol:
- bygythiad i ladd yn groes i adran 16 Deddf Troseddau yn Erbyn y Person 1861;
  - ymosodiad cyffredin;
  - trosedd cyfathrebiadau o dan adran 1 Deddf Cyfathrebiadau Maleisus 1988 neu adran 127 Deddf Cyfathrebiadau 2003;
  - trosedd sy'n groes i adrannau 4, 4A a 5 Deddf Trefn Gyhoeddus 1986; a

- throredd aflonyddu neu stelcian o dan adrannau 2, 2A 4 a 4A Deddf Diogelwch rhag Aflonyddu 1997.
- 1.43 Rydym wedi dod i'r casgliad nad yw unrhyw rai o'r troeddau hyn wedi cael eu haddasu'n ddefnyddol ar gyfer cyfathrebiadau bygythiol ar-lein, ac y gall y nifer fawr o droeddau sy'n gorgyffwrdd y gellid eu honni yng nghyd-destun cyfathrebiad bygythiol a pheryglus achosi drwschw.
- 1.44 Mae ailwampio'r ddeddf bygythiadau yn fwy cyffredinol y tu hwnt i'n cylch gorchwyl ar gyfer y prosiect yma, ond rydym wedi gweld bod lle i egluro rôl y troeddau cyfathrebu'n well mewn perthynas â chyfathrebu bygythiol.

## **AFLONYDDU A STELCIAN**

- 1.45 Mae aflonyddu a seiberstelcian ar-lein wedi dod i'r amlwg fel pryder sylweddol yn oes y rhyngwrdd, ac mae hyn wedi cael ei waethgu ymhellach gan gynnydd y cyfryngau cymdeithasol. Cyflwynwyd y troeddau aflonyddu, ac yn ddiweddarach stelcian, gan Ddeddf Diogelwch rhag Aflonyddu 1997 ("PHA 1997") Mae'r troeddau hyn yn troeddoli "trefn ymddygiad" sy'n "gyfatebol ag aflonyddu" rhywun arall.
- 1.46 Ym Mhennod 8 rydym yn nodi bod amrywiaeth eang iawn o "ymddygiadau" yn gallu bod yn gyfystyr ag aflonyddu neu stelcian o dan Ddeddf Diogelwch rhag Aflonyddu 1997, a gall hyn gynnwys ymddygiad ar-lein, ymddygiad all-lein neu gyfuniad o'r ddau.
- 1.47 Fel y nodwn ym Mhennod 3, un math o ymddygiad y cododd rhanddeiliaid bryderon penodol amdanynt oedd effaith "phentyrru" camdriniaeth ar-lein. Disgrifiodd un rhanddeiliad ei phrofiad wrthym o gael ei galw'n "ffycin ast" yn gyson.
- Efallai nad yw cael eich galw'n hynny unwaith yn brifo rhyw lawer, ond pan fydd gennych 500 achos ohono'n dod i mewn i'ch mewnlwch, pan mae 500 o bobl yn ei ddweud wrthyf, efallai na fyddwch yn teimlo mor ddihid.
- 1.48 Gall y dioddefwr ddioddef y math yma o ymddygiad fel math dwys iawn o aflonyddu. Ond, ar hyn o bryd, nid yw cyfraith troedd yn ei drin felly.
- 1.49 Er bod darpariaethau yn Neddf Diogelwch rhag Aflonyddu 1997 y gellid eu defnyddio mewn achosion o aflonyddu gan lawer o bobl ar y cyd, mae'r rhain yn gymhleth ac nid yw'n ymddangos bod y rhain yn cael eu defnyddio'n eang na bod pobl yn eu deall yn dda iawn.
- 1.50 Ein casgliad dros dro yw y gallai diwygiadau yn y dyfodol ystyried a oes ymddygiad penodol sy'n gysylltiedig â "phentyrru" aflonyddu, megis cydlynu a sbarduno'r ymddygiad yma, a allai gael ei dargedu'n well gan gyfraith troedd.

### **Argymhelliad 3.**

- 1.51 Yn ogystal â diwygio troeddau cyfathrebu, dylid cynnal adolygiad i ystyried a allai cyfraith troedd ymdrin yn fwy effeithiol ag aflonyddu sydd wedi'i gydlynu gan grwpiau o bobl ar-lein.

## TROSEDD CASINEB AR-LEIN

- 1.52 Mae deddfau trosedd casineb yn gwaethygu difrifoldeb y troseddu lle mae'r gweithredwr wedi'i gymhell gan, neu ei chymhell gan, neu'n dangos gelyniaeth tuag at ddiodefwr ar sail nodweddion penodol sydd gan y diodefwr hwnnw, neu y tybir eu bod yn nodweddion sydd gan y diodefwr hwnnw. Y pum nodwedd gwarchoddedig yw hil, crefydd, cyfeiriadedd rhywiol, anabledd a statws trawsrywiol, ond nid yw cyfraith trosedd yn gweithredu yn union yr un ffordd ar draws pob un o'r nodweddion yma.
- 1.53 Yn ogystal, mae nifer o droseddau casineb penodol. Yn y cyd-destun ar-lein, y mwyf perthnasol o'r rhain yw troseddau "corddi" casineb ar sail hil, crefydd, neu gyfeiriadedd rhywiol, sydd i'w cael yn Neddf Trefn Gyhoeddus 1986
- 1.54 Mae achosion o erlyn am "gorddi" troseddau yn brin. Mewn gwirionedd, mae'r mwyafrif o lefaru casineb ar-lein yn cael ei drin fel un o'r troseddau cyfathrebu (er bod modd defnyddio troseddau eraill Deddf Trefn Gyhoeddus 1986 neu Ddeddf Diogelwch rhag Aflonyddu 1997 hefyd).
- 1.55 Ym Mhennod 9, rydym yn nodi bod achosion toreithiog o lefaru casineb ar-lein. Sylwn, yn ogystal â'r nodweddion sy'n warchoddedig ar hyn o bryd, bod cyfathrebiadau difriol sy'n cael eu targedu at ferched - am eu bod yn ferched - yn doreithiog iawn ar-lein. Roedd y cyfranogwyr yn ein digwyddiad profiadau rhanddeiliaid yn arbennig o bryderus am faint y cynnwys ar-lein sydd â'r effaith o "ddibrisio merched neu eu diraddio nhw'n rhywiol", a'r effaith niweidiol y mae hyn yn ei chael ar dargedau uniongyrchol camdriniaeth o'r fath, ac ar y gymdeithas yn fwy cyffredinol.
- 1.56 Bydd troseddau casineb ar sail rhyw'n derbyn ystyriaeth yn rhan o adolygiad ehangach y Comisiwn o gyfraith trosedd casineb sy'n cychwyn yn 2019.
- 1.57 Yng nghyd-destun penodol cam-drin ar-lein, un mater a welwn yn dod i'r amlwg yw a ddylai llefaru atgas a gyfeirir tuag at bobl gyda nodwedd warchoddedig benodol gael ei erlyn o dan gategorïau generig megis "tramgwydd difrifol" neu lefaru "brawychus", neu a ddylid ymdrin yn fwy penodol â chategori o "gyfathrebu atgas" mewn cyfraith trosedd.

### Argymhelliad 4.

- 1.58 Dylai adolygiadau Comisiwn y Gyfraith o droseddau cyfathrebiad casineb a throsedd casineb gynnwys ystyriaeth o:
- dargedu merched ar-lein yn fwy na dynion, gan gynnwys drwy sentiment ac iaith gwrth-ferched amlwg; a
  - effeithiolrwydd y troseddau presennol o ran labelu a chosbi llefaru casineb

## TORRI PREIFATRWYDD A DATGELIAD HEB GANIATÂD

- 1.59 Mae'r rhyngwrwyd a'r cyfryngau cymdeithasol wedi newid disgwyliadau'r gymdeithas ynghylch preifatrwydd personol, gyda llawer o bobl erbyn hyn yn dewis anfon neu gyhoeddi nifer enfawr o wybodaeth bersonol ar-lein.
- 1.60 Yn anffodus, mae hyn hefyd yn cynyddu'r cyfle i bobl eraill gamddefnyddio gwybodaeth bersonol. Mae ymddygiad difriol megis "pornograffi dial" a "docsio" wedi dod i'r amlwg fel

ffynonellau sylweddol o niwed i ddiodefwyr. Yn yr achosion mwyaf eithriadol, mae hyn wedi arwain at hunan-niweidio ac hyd yn oed hunanladdiad.

- 1.61 Ym Mhennod 10 rydym yn ystyried y troseddau allweddol sy'n bodoli i atal camdriniaeth o'r fath, gan gynnwys:
- troseddau diogelu data, yn fwyaf nodedig o dan Ddeddf Diogelu Data 2018;
  - trosedd "datgelu ffilmiau a ffotograffau rhywiol preifat gyda'r bwriad o achosi trallod" sy'n groes i adran 33 Deddf Cyfiawnder Troseddol a Llysoedd 2015; a
  - y drosedd o sbecian sy'n groes i adran 67 Deddf Troseddau Rhywiol 2003.
- 1.62 Wrth ystyried effeithiolrwydd y troseddau hyn yn yr amgylchedd ar-lein, rydym wedi canfod dau brif bryder:
- a yw'r niwed sy'n cael ei achosi gan dechnoleg sy'n datblygu, megis pornograffi "ffugddwfn", yn cael ei drin yn ddigonol gan gyfraith trosedd; ac
  - a oes digon o drefniadau i ymdrin â'r achosion mwyaf diifrifol o dorri preifatrwydd.
- 1.63 Rydym yn awgrymu'r rhain fel dau faes posibl i'w hystyried wrth ddiwygio'r gyfraith ymhellach.

#### **Argymhelliad 5.**

- 1.64 Dylid adolygu ymateb cyfraith trosedd i achosion o gam-drin preifatrwydd ar-lein, a dylid ystyried yn arbennig:
- a yw'r niwed sy'n cael ei achosi gan dechnoleg sy'n datblygu, megis pornograffi "ffugddwfn", yn cael ei drin yn ddigonol gan gyfraith trosedd; ac
  - a oes digon o drefniadau i ymdrin â'r achosion mwyaf diifrifol o dorri preifatrwydd.

#### **CYFATHREBU FFUG**

- 1.65 Gallai cyfathrebu sy'n bwrpasol ffug a anfonir gyda'r bwriad o achosi "trallod neu bryder" neu "ddicter, anghysondeb neu bryder diangen" i rywun arall, fod yn gyfatebol â throsedd o dan adran 1 Deddf Cyfathrebiadau Maleisus 1988 neu adran 127(2) Deddf Cyfathrebiadau 2003.
- 1.66 Ym Mhennod 11 rydym yn nodi bod y troseddau hyn yn esiamplau gweddol anarferol o droseddoli cyfathrebiadau "ffug". Heblaw troseddau twyll, nid yw cyfraith trosedd yn troseddoli cyfathrebiadau ffug fel arfer, heblaw mewn cyd-destunau penodol arbennig megis deddfau diogelwch y cyhoedd, deddfau etholiadol, a gweinyddu troseddau cyfiawnder. Er enghraifft, er bod "newyddion ffug" yn cael ei gydnabod fel niwed cyhoeddus cynyddol ddifrifol, nid yw fel arfer yn fater troseddol.
- 1.67 Mae'n drawiadol, felly, bod y trothwy ar gyfer y drosedd o anfon cyfathrebiad ffug o dan adran 127(2) Deddf Cyfathrebiadau 2003 yn arbennig wedi'i osod yn weddol isel, a'r cwbl sydd ei angen i fod yn drosedd yw bwriad i achosi "dicter, anghyfleustra neu bryder dianghenraid".

- 1.68 Mewn gwirionedd, wrth benderfynu a ddylid erlyn ai peidio, bydd Gwasanaeth Erlyn y Goron yn ystyried yn ofalus a ydyw'n gyfiawn o fewn y gyfraith (o gofio bod hawl i ryddid mynegiant) ac o fewn yr holl amgylchiadau er budd y cyhoedd. Fodd bynnag, y broblem yr ydym wedi'i chanfod yw bod diffyg cyfatebiaeth sylweddol rhwng geiriad y statud, a'r trothwy llawer uwch o niwed ac euogrwydd pan fydd erlyniadau'n debygol o gael eu ceisio. Ein pryder yw bod hyn yn gwneud y gyfraith yn aneglur ac yn ansicr. Rydym yn awgrymu y dylai termau'r troseddau cyfathrebu diwygiedig sy'n ymwneud â chyfathrebiadau ffug adlewyrchu'n agosach drothwy lle mae troseddoli'n gymesur ac yn gyfiawn.
- 1.69 Ar y llaw arall, rydym wedi nodi hefyd nad yw cyfathrebiadau ffug penodol, a allai fod yn hynod niweidiol, wedi eu troseddoli ar hyn o bryd lle nad oes bwriad maleisus arall - er enghraifft, cyngor peryglus o ffug am iechyd neu ddiogelwch. O ystyried maint y ddbyniaeth a roddir ar ffynonellau ar-lein, rydym o'r farn ei bod hi werth rhoi ystyriaeth bellach i ataliaeth droseddol yn yr achosion mwyaf difrifol.

### **Argymhelliad 6.**

- 1.70 Yn rhan o ddiwygiad y troseddau cyfathrebu, dylid adolygu'r trothwy lle mae cyfathrebiadau maleisus a "ffug" yn cael eu troseddoli.

## **ANNOG TROSEDD AR-LEIN A THROSEDDAU CYCHWYNNOL ERAILL**

- 1.71 Yn y Bennod olaf rydym yn ystyried sut mae pobl yn gallu defnyddio'r rhyngwrwyd i annog ymddygiad niweidiol a throreddol, gan nodi termau eang iawn adrannau 44 i 46 Deddf Troseddu Difrifol 2007.
- 1.72 Rydym hefyd yn rhoi ystyriaeth fer i fathau eraill o atebolrwydd "cychwynnol" am droseddu ar-lein, megis cynllwynio ac ymgeisio, a sut y gallai'r rhain fod yn berthnasol i gyfathrebiadau ar-lein sy'n dramgwyddus a difriol.
- 1.73 Rydym yn cloi drwy awgrymu, er bod gan droseddau Deddf Troseddu Difrifol 2007 ymestyniad llydan, bod dau gyd-destun pwysig sydd heb eu troseddoli ar hyn o bryd a bod hyn yn bwnc dadleuol.
- (1) "gogoneddiad" mathau arbennig o drosedd dreisgar (er enghraifft, gogoneddu ymosodiadau asid neu droseddau cylllell); ac
  - (2) annog hunan-niweidio ar-lein.
- 1.74 Nid ydym yn dod i unrhyw gasgliadau terfynol, ond rydym yn awgrymu y gellid ystyried y materion hyn yng nghyd-destun adolygiad pellach o'r troseddau cyfathrebu.

### **Argymhelliad 7.**

- 1.75 Mae gogoneddu troseddau treisgar ar-lein ac annog hunan-niweidio ar-lein yn faterion y dylid eu hystyried yng nghyd-destun yr adolygiad o droseddau cyfathrebu.

## CASGLIAD

- 1.76 Rydym yn cloi'r Adroddiad Cwmpasu drwy grynhoi'r canfyddiadau allweddol yr ydym wedi'u gwneud ynghylch y gyfraith trosedd gyfredol yn ymwneud â chyfathrebu tramgwyddus a difriol ar-lein.
- 1.77 Er bod rhai elfennau amwys a phroblemau technegol gyda'r gyfraith, rydym yn gweld bod ehangder y troseddau cyfathrebu cyfredol yn golygu bod categori trosedd ar gael yn y mwyafrif o achosion ar gyfer cyfathrebu tramgwyddus a difriol ar-lein mewn amgylchiadau lle byddai ymddygiad tebyg oddi ar lein yn cael ei droseddoli o bosib. Mewn rhai achosion, maent yn cynnwys geiriau ac ymddygiad na fyddai'n drosedd mewn sefyllfa all-lein.
- 1.78 Nid yw'n glir, fodd bynnag, bod cyfathrebu tramgwyddus a difriol yn cael ei erlid a'i drin yr un mor ddifrifol bob amser ag y mae cyfathrebu cyfatebol mewn sefyllfa all-lein gan asiantaethau gorfodi'r gyfraith ac erlynwyr, neu'n wir gan aelodau'r cyhoedd.
- 1.79 Er bod troseddau'n bodoli, rydym yn gweld hefyd mewn llawer o achosion y byddai modd gwella'r rhain er mwyn eu gwneud yn fwy eglur a sicrhau eu bod yn targedu troseddolrwydd a niwed difrifol yn effeithiol. Ar hyn o bryd, mae'r troseddau sydd ar gael yn rhy gynhwysol ac hefyd heb fod yn ddigon cynhwysol, mewn agweddau penodol.
- 1.80 I grynhoi, rydym yn argymhell y dylai ail gam y prosiect yma ystyried:
- diwygio ac atgyfnerthu troseddau cyfathrebu, fel eu bod yn gliriach ac yn fwy cymesur;
  - y ffordd y gallai'r gyfraith ddarparu'n fwy effeithiol ar gyfer y niwed penodol a achosir i unigolyn sy'n dioddef ymgyrch o aflonyddu ar-lein; ac
  - adolygiad o ba mor effeithiol y mae cyfraith trosedd yn diogelu uingolion rhag cam-drin sy'n ymwneud â'u bywydau preifat, gyda chyfeiriad arbennig at rannu delweddau preifat heb gydsyniad.
- 1.81 Yn ogystal, mae'r Llywodraeth wedi gofyn yn ddiweddar i Gomisiwn y Gyfraith ystyried adolygiad eang o gyfraith trosedd casineb yng Nghymru a Lloegr. Ein bwriad yw bod rhai o'r sylwadau yn yr Adroddiad yma, megis rôl ac effeithiolrwydd y gyfraith i ymdrin â llefaru casineb, yn derbyn rhagor o sylw yng nghyd-destun yr adolygiad hwnnw.

Gallwch weld yr Adroddiad Cwmpasu llawn ar [www.lawcom.gov.uk](http://www.lawcom.gov.uk)